**Joani Reid AS**

Y Fonesig Melanie Dawes
Prif Weithredwr
**E-bost:** chiefexecutive@ofcom.org.uk

1 Rhagfyr 2025

Annwyl Ms Reid,

Diolch i chi a'ch cydweithwyr Seneddol am eich llythyr, dyddiedig 20 Tachwedd, yn rhannu pryderon difrifol am gynnwys gwrth-semistaidd a galwadau am drais yn erbyn y gymuned Iddewig ar blatfform cyfryngau cymdeithasol X, yn dilyn yr ymosodiad terfysgol erchyll ar synagog Cynulleidfa Hebraeg Heaton Park ar 2 Hydref eleni.

Rydym yn cytuno â chi nad oes lle i'r cynnwys hwn mewn trafodaeth gyhoeddus. Lle mae cynnwys casineb ac eithafol yn anghyfreithlon, mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn glir ei bod yn ofynnol i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol fel X ei ddileu'n gyflym pan fyddant yn dod o hyd iddo ac mae'n rhaid iddynt gael systemau a phrosesau effeithiol ar waith i wneud hyn. Mae ein Cod Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon, a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2024 ac a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2025, yn cynnwys mesurau penodol i fynd i'r afael â'r risgiau hyn:

- Rhaid i ddarparwyr gynnal timau cymedroli cynnwys sydd â'r adnoddau a'r hyfforddiant priodol.
- Rhaid i swyddogaethau adrodd a chwynion fod yn hawdd i'w canfod a'u defnyddio, a rhaid cymryd camau priodol wrth ymateb.
- Dylai darparwyr osod a chofnodi targedau perfformiad ar gyfer eu swyddogaeth cymedroli cynnwys.
- Dylai darparwyr sicrhau bod unigolion yn derbyn hyfforddiant a deunyddiau sy'n eu galluogi i gyflawni eu rôl wrth gymedroli cynnwys.

Yn dilyn yr ymosodiad ym Manceinion, gwnaethom ymgysylltu ar unwaith â'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mwyaf a chydag ystod o sefydliadau cymdeithas sifil, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Diogelwch Cymunedol (CST), yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth (APT), Tell Mama, y Sefydliad Deialog Strategol (ISD), y Ganolfan ar gyfer Gwrthsefyll Casineb Digidol (CCDH) a Tech Against Terrorism (TAT). Er na allwn wneud sylwadau ar gydymffurfiaeth llwyfannau unigol â'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar hyn o bryd, mae ein hymgysylltiad â'r sefydliadau cymdeithas sifil hyn wedi arwain at nifer o ganfyddiadau pryderus. Adroddodd yr holl sefydliadau dan sylw eu bod yn gweld cyfrolau sylweddol o gasineb eithafol ar-lein - gan gynnwys ar rai o'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mwyaf - gan gynnwys casineb gwrth-semitig a gwrth-Fwslimaidd. Adroddodd TAT ei fod wedi gweld cyfrolau sylweddol o gynnwys terfysgol. Yn gyson â'r hyn a ddywedwch yn eich llythyr, dywedodd CST, APT, Tell Mama, ISD a CCDH i gyd wrthym fod cynnwys casineb ar-lein wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Rydym yn cytuno bod hyn yn gofyn am ymateb cadarn. Mae tystiolaeth o gynnwys terfysgaeth a chasineb anghyfreithlon sy'n aros ar lwyfannau mawr ar ôl iddo gael ei adrodd iddynt yn awgrymu bod angen gwella prosesau cymedroli cynnwys. Ers yr ymosodiad terfysgol ym Manceinion, rydym wedi cychwyn rhaglen gydymffurfio newydd i bennu a oes gan y cwmnïau cyfryngau cymdeithasol mwyaf systemau, prosesau a pholisïau digonol ar waith i asesu a dileu deunydd casineb a therfysgaeth anghyfreithlon sydd wedi'i adrodd iddynt yn gyflym. Erbyn Ebrill 2026 byddwn wedi adolygu systemau, prosesau a pholisïau un platfform mawr ar gyfer asesu a dileu cynnwys

terfysgaeth anghyfreithlon a chynnwys casineb, gan gynnwys deunydd gwrth-semitaidd a gwrth-Fwslimaidd. Yna byddwn yn ymestyn y gwaith hwn i wasanaethau eraill. O reidrwydd mae'r broses hon yn gyfrinachol, ond os byddwn yn canfod pryderon sylweddol ynghylch cydymffurfio, byddwn yn gweithredu ar uwaith i gymryd camau gorfodi ffurfiol, a byddwn yn cyhoeddi’r camau hynny.

Rydym yn ddiolchgar i'r amryw sefydliadau cymdeithas sifil sydd wedi gweithio gyda ni hyd yn hyn, ac rydym yn awyddus i barhau a dyfnhau'r bartneriaeth hon. Yn benodol, rydym hefyd yn cysylltu â sefydliadau amrywiol yn yr wythnosau nesaf i archwilio a oes ganddynt dystiolaeth bellach a allai fod yn berthnasol i gefnogi ein hymchwiliad. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw dystiolaeth sydd gennych chi a'ch cydweithwyr. Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ddileu cynnwys anghyfreithlon o'u safleoedd yn gyfan gwbl, ond mae'n gofyn am fesurau i fynd i'r afael â'r cynnwys hwn. Felly, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn tystiolaeth bod cwmnïau cyfryngau cymdeithasol wedi methu â dileu cynnwys anghyfreithlon yn dilyn cwyn, neu wedi methu â gwneud eu systemau adrodd yn hawdd i'w defnyddio er mwyn adrodd am gynnwys yr amheuir ei fod yn anghyfreithlon.

Yn olaf, credwn fod ein Codau Ymarfer cyntaf yn darparu sylfaen gref, ond mae graddfa'r niwed ar-lein a chyflymder y newid technolegol yn golygu na allwn sefyll yn llonydd. Efallai eich bod yn ymwybodol ein bod wedi ymgynghori yn ddiweddar ar rai ychwanegiadau penodol i’n Codau, gan gynnwys nifer o fesurau newydd sydd â’r nod o fynd i'r afael â lleferydd casineb o bob math. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pan fydd llwyfannau yn gweld arwyddion y gallai darn o gynnwys fod yn lleferydd casineb anghyfreithlon, dylent ei dynnu o'r porthiant argymhellon hyd nes y bydd eu systemau cymedroli cynnwys yn cael ei adolygu.
- Dylai darparwyr ffrydio byw sicrhau bod cymedrolwyr dynol ar gael bob amser fel y gallant weithredu ar frys ar gynnwys anghyfreithlon, gan gynnwys casineb, pan fo angen.
- Protocolau i ddelio ag argyfwng, fel ymosodiadau terfysgol neu'r terfysgoedd yn dilyn llofruddiaethau Southport yn haf 2024.
- Polisïau cadarn ar gyfer sancsiynu defnyddwyr y canfyddir eu bod wedi rhannu lleferydd casineb anghyfreithlon.
- Defnyddio paru-hash – sef adnodd awtomataidd sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio'n helaeth i ganfod delweddau cam-drin plant yn rhywiol – i ganfod a dileu cynnwys terfysgol.

Mae ein hymgynghoriad ar y mesurau ychwanegol hyn newydd ddod i ben, a byddwn yn cwblhau'r gwaith hwn ac yn diweddaru ein Codau Ymarfer erbyn Hydref 2026.

Diolch unwaith eto am eich llythyr. Byddem yn falch iawn i gwrdd â chi a'ch cydweithwyr pe byddech o’r farn y byddai hynny’n ddefnyddiol, ac i gael y cyfle i esbonio ein gwaith yn fanylach.

Yn gywir

Melanie Dawes

*Copïwyd i:*

*Antonia Bance AS, Patrick Hurley AS, Catherine McKinnell AS, Kevin Bonavia AS, Emily Darlington AS, Luke Myer AS, Charlotte Nichols AS, Luke Akehurst AS, Wera Hobhouse AS, Yr Arglwydd Austin, Ben Lake AS, Josh Dean AS, Peter Prinsley AS, Sarah Hall AS, Jim Allister AS, David Taylor AS, Tris Osborne AS, Fabian Hamilton AS, Alex Sobel AS, Johanna Baxter AS, Sam Carling AS, Wendy Chamberlain AS, Y Farwnes Berger, Christine Jardine AS, Liz Jarvis AS, Ellie Chowns AS, Gurinder Josan AS, Carla Denyer AS, Nadia Whittome AS, Derek Twigg AS, Jonathan Davies AS, Marie Goldman AS, Sorcha Eastwood AS*